

**Deled Dy Deyrnas |
Thy Kingdom Come**



Chi yw fy nhystion

You are my Witnesses

Dydd Iau'r Dyrchafael-Dydd y Pentecost
Ascension-Pentecost

Bob dydd yn ystod y tymor arbennig hwn, byddwn yn edrych ar yr Ysgrythurau, yn ateb cwestiynau, ac yn oedi i feddwl. Bob dydd heblaw ar y dydd cyntaf, byddwn yn edrych ar ddarn o Actau'r Apostolion. Heddiw rydyn ni'n dechrau gyda darn o Efengyl Luc. Ysgrifennodd Luc hefyd Actau.

Defnyddiwch y llyfryn hwn ar y cyd â dyddiadur Gweddï Deled Dy Deyrnas, a chofiwch stopio a gweddïo am hanner dydd bob dydd.

Colect Dyrchafael

Hollalluog Dduw,
fel yr ydym yn credu i'th unig-anedig Fab
Iesu Grist ein Harglwydd esgyn i'r nef,
gweddïwn arnat ganiatáu i ninnau ym meddylfryd ein calon
ymddyrchafu a thrigo yno'n wastad gydag ef;
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbyrd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

Luc 24:44-53

Dyweddodd wrthynt, "Dyma ystyr fy ngeiriau a leferais wrthynt pan oeddwn eto gyda chwi: ei bod yn rhaid i bob peth gael ei gyflawni sy'n ysgrifenedig amdanaf yng Nghyfraith Moses a'r proffwydi a'r salmau." Yna agorodd eu meddyliau, iddynt ddeall yr Ysgrythurau. Meddai wrthynt, "Fel hyn y mae'n ysgrifenedig: fod y Meseia i ddiodef, ac i atgyfodi oddi wrth y meirw ar y trydydd dydd, a bod edifeirwch, yn foddion maddeuant pechodau, i'w gyhoeddi yn ei enw ef i'r holl genhedloedd, gan ddechrau yn Jerwsalem. Chwi yw'r tystion i'r pethau hyn. Ac yn awr yr wyf fi'n anfon arnoch yr hyn a addawodd fy Nhada; chwithau, arhoswch yn y ddinas nes eich gwisgo chwi oddi uchod â nerth." Aeth â hwy allan i gyffiniau Bethania. Yna cododd ei ddwylo a'u bendithio. Wrth iddo'u bendithio, fe ymadawodd â hwy ac fe'i dygwyd i fyny i'r nef. Wedi iddynt ei addoli ar eu gliniau, dychwelsant yn llawen iawn i Jerwsalem. Ac yr oeddent yn y deml yn ddi-baid, yn bendithio Duw.

Myfyrdod

Mae'r Dyrchafael yn nodi diwedd gweinidogaeth gorfforol Iesu ar y ddaear. Fe eistedd Iesu yn awr wrth ochr Duw lle y caiff ei addoli a'i foli. Gwnaeth Iesu ddau beth cyn gadael ei ddisgyblion. Yn gyntaf,

agorodd eu meddyliau er mwyn iddynt allu deall yr ysgrythurau. Fy ngweddi i ni yw y byddwn ni yn bobl fydd yn cymeryd yr ysgrythurau o ddifrif. Yn ail, comisiynodd Iesu ei ffrindiau fel tystion o'r hyn yr oeddynt wedi ei brofi. Tyst yw rhywun sydd yn tystiolaethu i'r gwir. 'Roedd gair a chenhadaeth wrth galon yr eglwys fore. Gobeithiaf mai hyn ydych chi eisiau i ni ym Mro Madryn.

Sefyll yn edrych ar y gorwel
Mae'r Mab wedi diflannu
Gorseddwyd heb ei weld
Sefyll yn edrych ar y gorwel
I bobl sydd heb glywed hyn
Darganfod eu bod yn byw'n ein mysg
Sefyll yn edrych ar y gorwel
Clywn sibrwd geiriau
Chwi yw fy nhystion hyd nes y daw diwedd pob oes.

Dydd Gwener 19 Mai

Actau 18:9-18

⁹Dywedodd yr Arglwydd wrth Paul un noson, trwy weledigaeth, "Paid ag ofni, ond dal ati i lefaru, a phaid â thewi; ¹⁰oherwydd yr wyf fi gyda thi, ac ni fydd i neb ymosod arnat ti i wneud niwed iti, oblegid y mae gennyf lawer o bobl yn y ddinas hon." ¹¹Ac fe arhosodd flwyddyn a chwe mis, gan ddysgu gair Duw yn eu plith. ¹²Pan oedd Galio yn rhaglaw Achaia, cododd yr Iddewon yn unfryd yn erbyn Paul, a dod ag ef gerbron y llys barn, ¹³gan ddweud, "Y mae hwn yn annog pobl i addoli Duw yn groes i'r Gyfraith." ¹⁴Pan oedd Paul ar agor ei enau, dywedodd Galio wrth yr Iddewon, "Pe bai yn fater o drosedd neu gamwedd ysgeler, byddwn wrth reswm yn rhoi gwrandawriad i chwi, Iddewon; ¹⁵ond gan mai dadleuon yw'r rhain ynghylch geiriau ac enwau a'ch Cyfraith arbennig chwi, cymerwch y cyfrifoldeb eich hunain. Nid oes arnaf fi eisiau bod yn farnwr ar y pethau hyn." ¹⁶A gyrrodd hwy allan o'r llys. ¹⁷Yna gafaelodd pawb yn Sosthenes, arweinydd y synagog, a'i guro yng ngŵydd y llys. Ond nid oedd Galio yn poeni dim am hynny. ¹⁸Arhosodd Paul yno eto gryn ddyddiau, ac wedi ffarwelio â'r credinwyr fe hwyliodd ymaith i Syria, a Priscila ac Acwila gydag ef. Eilliodd ei ben yn Cenchreae, am fod adduned arno. ¹⁹Pan gyraeddasant Effesus, gadawodd hwy yno, a mynd ei hun i mewn i'r synagog ac ymresymu a'r Iddewon.

Myfyrdod

Cymer y digwyddiad yma le o fewn degawd i ddyrchafiad Iesu. 'Roedd y rhai a safai yn ymyl Jerwsalem yn dystion. Rwan, mae Paul yng Nghorinth. Mae'n aros yno am 18 mis yn addysgu gair Duw yn eu mysg. Yn amlwg 'roedd yr hyn a addysgai yn cyffroi y bobl achos caiff ei gymryd gerbron y rhai sydd mewn awdurdod. Caiff Paul ei gyhuddo o addysgu'r bobl i addoli Duw mewn ffyrdd â ymddengys yn gyferbyniol i ddeddf Duw. Beth oedd y geiriau hyn? Yng nghalon neges Paul oedd hyn: 'roedd gras Duw a'i gariad ar gael i bawb yn ddiwahân i ethnigrwydd, dosbarth, cenedl neu addysg. Tybed pa mor gynhwysol a faint o ddealltwriaeth o eraill ydi ein haddoliad? Pa mor glir ydan ni gyda'n neges? Aiff Paul ymlaen maes o law a dweud ffarwel wrth y credinwyr. Pa mor bell y byddech chi yn fodlon mynd er mwyn yr Efengyl.

Cwestiynau

1. Sut y byddech chi yn disgrifio'r Apostol Paul?
2. Ydach chi yn meddwl y dylai Cristnogion fod yn ddistaw am eu ffydd?
3. Heddiw gaiff y ffydd Gristnogol ei chamddeall weithiau a beth fedrwn ni wneud am y peth?

Fe saif ei hun yn y deml
Gallech glywed y tyner dap dap
Tap y rheiny nag oedd ddim yn gweld
Gafael llaw â'r plantos, o gylch y brenin – dawns.

Dydd Sadwrn 20 Mai

Actau 18:23-26

²³Ac wedi treulio peth amser yno, aeth ymaith, a theithio o le i le trwy wlad Galatia a Phrygia, gan gadarnhau'r holl ddisgyblion.²⁴Daeth rhyw Iddew o'r enw Apolos i Effesus. Brodor o Alexandria ydoedd, a gŵr huawdl, cadarn yn yr Ysgrythurau. ²⁵Yr oedd hwn wedi ei addysgu yn Ffordd yr Arglwydd, ac yn frwd ei ysbryd yr oedd yn

llefaru ac yn dysgu yn fanwl y ffeithiau am Iesu, er mai am fedydd loan yn unig y gwyddai. ²⁶Dechreuodd hefyd lefaru'n hy yn y synagog, a phan glywodd Priscila ac Acwila ef, cymerasant ef atynt, ac esbonio iddo Ffordd Duw yn fanylach. ^{27A} chan ei fod yn dymuno mynd drosodd i Achaia, cefnogodd y credinwyr ef, ac ysgrifennu at y disgyblion, ar iddynt ei groesawu. Ac wedi iddo gyrraedd, bu'n gynhorthwy mawr i'r rhai oedd trwy ras wedi credu, ²⁸oherwydd yr oedd yn mynd ati'n egniol i wrthbrofi dadleuon yr Iddewon, gan ddangos ar goedd trwy'r Ysgrythurau mai Iesu oedd y Meseia.

Myfyrdod

Daeth Paul gyda Priscila ac Acwila i Effesus, a gadawodd Paul nhw yn y ddinas i fynd drwy holl ardal Galatia gan nerthu dilynwyr Iesu yno. Yn ei lythyr i'r eglwys yn Galatia, mae Paul yn glir ac yn blaen, fod yna un efengyl a bod Crist yn ganolog i'r hyn oll a wnawn. Mae'n gwybod am fedydd edifeirwch a gyflwynodd loan Fedyddiwr, ond o bosibl ni wŷr ddim am fedydd yr Ysbryd Glân. Aiff Acwila a Priscila ag O i weithio gydag Apolos gan egluro mwy am ffydd wrtho. Faint o sgyrsiau am ffydd ydych chi wedi eu cael gyda'ch gilydd?

Edrychiad olaf, codi llaw bendith
Gwên a dagarau yn ein llygaid
Gwynt yn eu gwallt a'u dillad
Ac roedd wedi mynd
Galileaid, pam sefyll ac edrych?
Daeth amser i fynd. Un arall a ddaw.
Newid amser o'i herwydd.
Gorwelion ddaeth yn llawer mwy
Law yn llaw fe gerddwn atynt.

Dydd Sul 21 Mai

Actau 1:6-11

⁶Felly, wedi iddynt ddod ynghyd, fe ofynasant iddo, "Arglwydd, ai dyma'r adeg yr wyt ti am adfer y deyrnas i Israel?" ⁷Dyweddodd yntau wrthynt, "Nid chwi sydd i wybod amseroedd neu brydiau y mae'r Tad wedi eu gosod o fewn ei awdurdod ef ei hun. ⁸Ond fe dderbyniwch nerth wedi i'r Ysbryd Glân ddod arnoch, a byddwch yn dystion i mi yn Jerwsalem, ac yn holl Jwdea a Samaria, a hyd eithaf y ddaear." ⁹Wedi iddo ddweud hyn, a hwythau'n edrych, fe'i

dyrchafwyd, a chipiodd cwmwl ef o'u golwg. ¹⁰Fel yr oeddent yn syllu tua'r nef, ac yntau'n mynd, dyma ddau ŵr yn sefyll yn eu hymyl mewn dillad gwyn, ¹¹ac meddai'r rhain, "Wŷr Galilea, pam yr ydych yn sefyll yn edrych tua'r nef? Bydd yr Iesu hwn, sydd wedi ei gymryd i fyny oddi wrthyd i'r nef, yn dod yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn mynd i'r nef."

Myfyrdod

Bu'r disgyblion a ffrindiau Iesu ar dipyn o siwrna emosiynol. O Sul y Palmwydd i Ddydd Gwener y Groglith, buddugoliaeth a thrychineb yn cael eu dilyn gan drawma Dydd Y Pasg. Fe dreuliodd Iesu amser gyda nhw yn agor yr ysgrythurau. 'Roedd yn bwysig i Iesu, yn ystod yr amser hwn o newid, fod ei ffrindiau yn ymgodymu â'r ysgrythurau. Y stori sy'n gynnwysedig o fewn ein testunau sanctaidd ydi un o Dduw sydd yn ein gwthio ni tuag allan. Byddai'r merched a'r dynion safodd gyda Iesu ar y bryn tu allan i Jerwsalem mewn ychydig o flynyddoedd yn cael eu cyhuddo o droi y byd a'i ben i lawr. Ydan ni gyda'n gilydd yn barod i droi ein byd a Phen Llŷn a'i ben i lawr trwy ddilyn Iesu.

Cwestiynau

1. Beth ydych chi yn ei feddwl oedd y nerth oddi uchod a dderbyniodd y disgyblion?
2. Sud ydych chi yn meddwl y mae'r Ysbryd Glân yn gweithio ym mywyd yr eglwys ac yn eich bywyd chi?
3. Gofynnodd y disgyblion gwestiwn i Iesu. Pa gwestiwn fydddech chi yn ei ofyn iddo?

Arglwydd, pryd gwnei hyn? Pa bryd y doi â newid?

Dwi'n ofni nad wyf yn hoffi dy ateb.

Gwingaf nad wy'n gwybod.

Hwyrach mai dyna swyddogaeth yr Ysbryd.

Gwenieithio, atgoffa, a chymryd fy llaw

Cymorth yw'r Ysbryd i mi i wneud anhysbys yn anghyfforddus

Ac i gofio gadael i newid ddigwydd gan ddechrau â mi fy hun.

Dydd Llun 22 Mai

Actau 20:17-27

¹⁷Anfonodd o Miletus i Effesus a galw ato henuriaid yr eglwys. ¹⁸Pan gyraeddasant ato, dywedodd wrthynt, "Fe wyddoch fel y bûm i gyda chwi yr holl amser, er y diwrnod cyntaf y rhois fy nhroed yn Asia, ¹⁹yn gwasanaethu'r Arglwydd â phob gostyngeddwrwydd, ac â dagrau a threialon a ddaeth i'm rhan trwy gynllwynion yr Iddewon. ²⁰Gwyddoch nad ymateliais rhag cyhoeddi i chwi ddim o'r hyn sydd fuddiol, na rhag eich dysgu chwi yn gyhoeddus ac yn eich cartrefi, ²¹gan dystiolaethu i Iddewon a Groegiaid am edifeirwch tuag at Dduw a ffydd yn ein Harglwydd Iesu. ²²Ac yn awr dyma fi, dan orfodaeth yr Ysbryd, ar fy ffordd i Jerwsalem, heb wybod beth a ddigwydd imi yno, ²³ond bod yr Ysbryd Glân o dref i dref yn tystiolaethu imi fod rhwymau a gorthrymderau yn fy aros. ²⁴Ond yr wyf yn cyfrif nad yw fy mywyd o unrhyw werth imi, dim ond imi allu cwblhau fy ngyrfa, a'r weinidogaeth a gefais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu i Efengyl gras Duw. ²⁵Ac yn awr, rwy'n gwybod na chewch weld fy wyneb mwyach, chwi oll y bûm i'n teithio yn eich plith gan gyhoeddi'r Deyrnas. ²⁶Gan hynny, yr wyf yn tystio i chwi y dydd hwn fy mod yn ddiuog o waed unrhyw un; ²⁷oblegid nid ymateliais rhag cyhoeddi holl arfaeth Duw i chwi.

Myfyrdod

Tydi gostyngeddwrwydd ddim yn air yr ydym yn arfer ei gysylltu â'r Apostol Paul. O leiaf tydw i ddim. Oddi wrth ei lythyrau, gwelwn rywun sydd yn bigog ac yn siarad yn blaen. Dyma fo yn barod i gychwyn ei daith i Jerwsalem ac yna i Rufain. Mae Paul wedi casglu ei arweinwyr o'i gwmpas ac yn eu hatgoffa o ba mor ddiwyd y bu yn cyhoeddi yr efengyl. Pa mor ddiwyd ydan ni yn gwneud hyn? Pa mor fwriadol yr ydw i fel eich ficer yn sicrhau fod pob dyn, pob gwraig, a phlant yn ein hardal yn cael y cyfle i glywed y newydd da am Iesu? Fyddwn i yn barod i dystiolaethu pe gwyddwn y byddwn mewn trwb! Fyddwn i yn rhoi Iesu yn gyntaf ym mhopeth? Mae gostyngeddwrwydd Paul yn adlewyrchu Iesu. Fe newidiwyd y gŵr o Darsus fel yr oedd yn dilyn y gŵr o Nasareth.

Cwestiynau

1. Pa wyrthwynebiad ydych yn ei feddwl ddaw i'n cyfarfod wrth i ni siarad am Iesu?

2. Pa bryd oedd y tro diwethaf i'r plwyf cyfan ymweld o dŷ i dŷ? Ydi hyn yn bwysig?
3. Sud y buasech yn dweud fod ddilyn Iesu wedi eich newid chi?

Dduw ffyddlon. Yr Un anghyforddus
 Fy newid i yw'r her
 Geilw fi'n dyner. Mae yn fy annog ymlaen
 Mae f'eisiau i fod fel Iesu; gwyleidd-dra a chariad yn un
 Cymeraf dy law, a synnu
 Synnaf lle r'arweini fel y teithiom â'n
 gilydd
 Dduw ffyddlon, yr anghyforddus Un
 Cerdda â mi: un cam ar y tro.

Dydd Mawrth 23 Mai

Actau 19: 1-10

¹Tra oedd Apolos yng Nghorinth, teithiodd Paul drwy'r parthau uchaf, a daeth i Effesus. Yno daeth o hyd i rai disgyblion, ²a gofynnodd iddynt, "A dderbynniasoch yr Ysbryd Glân pan gredasoch?" Meddent hwythau wrtho, "Naddo; ni chlywsom hyd yn oed fod yna Ysbryd Glân." ³Dywedodd yntau, "Â pha fedydd, ynteu, y bedyddiwyd chwi?" Atebasant hwythau, "Â bedydd loan." ⁴Ac meddai Paul, "Bedydd edifeirwch oedd bedydd loan, ac fe ddywedodd wrth y bobl am gredu yn yr hwn oedd yn dod ar ei ôl ef, hynny yw, yn Iesu." ⁵Pan glywsant hyn, fe'u bedyddiwyd hwy i enw'r Arglwydd Iesu, ⁶a phan roddodd Paul ei ddwylo arnynt daeth yr Ysbryd Glân arnynt, a dechreusant lefaru â thafodau a phroffwydo. ⁷Yr oedd tua deuddeg ohonynt i gyd. ⁸Aeth i mewn i'r synagog, ac am dri mis bu'n llefaru'n hy yno, gan ymresymu a cheisio'u hargyhoeddi ynghylch teyrnas Dduw. ⁹Ond gan fod rhai yn ymgaledu ac yn gwrthod credu, ac yn difenwi'r Ffordd yng ngŵydd y gynulleidfa, ymneilltuodd oddi wrthynt gan gymryd ei ddisgyblion oddi yno, a pharhau i ymresymu bob dydd yn narlithfa Tyranus. ¹⁰Parhaodd hyn am ddwy flynedd, nes i holl drigolion Asia, yn Iddewon a Groegiaid, glywed gair yr Arglwydd.

Myfyrdod

Mae Apolos yn awr yn Corinth a Paul yn Effesus. Tydi'r ddau yma yn ddim ond dau ymysg y llawer oedd yn pregethu'r efengyl drwy y byd

fel yr adnabyddid o yr amser hwnnw. Mae Paul yn eu herio ac yn eu hannog nhw i ddarganfod mwy am eu ffydd. Byddaf fi yn meddwl weithiau faint ydw i eisiau ei ddysgu am fy ffydd, a gweddi'af ar i Dduw roi i mi yr awydd i ddyheu am fwy. Fe ddechreu'af'r Apostol yn y synagog, ond pan gaiff ei wrthwynebu, mae'n symud ymlaen ac yn dadlau'n ddyddiol am y ffydd. 'Does ar Paul ddim ofn bod allan yna ddydd a nos dros ei ffydd. Mae Paul yn fy ysbrydoli yn ogystal â fy herio. Mae Luc yn gorffen y darn trwy ddweud fod pawb wedi clywed gair yr Arglwydd. Fyddai hi ddim yn rhyfeddol petaem ni yn gallu dweud, o fewn Bro Madryn, boed yn Gymraeg neu yn Saeaneg, fe glywodd pawb air yr Arglwydd.

Cwestiynau

1. Pa bryd y cafoch chi eich herio ddiwethaf i dyfu eich ffydd?
2. Ydi hi'n bwysig i chi eich bod yn tyfu'n eich ffydd yn gyson?
3. Ydi Paul yn eich herio neu yn eich ysbrydoli?

Dydd ar ôl dydd, nos ar ôl nos
Ymryson am y ffydd
Bloc 'deiladu, ar ôl bloc 'deiladu
lesu ydi'r garreg sylfaen.
Carreg i hyrwyddo cwmp a wna i eraill i syrthio
Dydd ar ôl dydd a nos ar ôl nos ,
Chwalu y tywyllwch, a'n galw ni i'r goleuni.

Dydd Mercher 24 Mai

Actau 19:28-38

²⁸Pan glywsant hyn, llanwyd hwy â dichter, a dechreusant weiddi, "Mawr yw Artemis yr Effesiaid." ²⁹Llanwyd y ddinas â'u cynnwrf, a rhuthrasant yn unfryd i'r theatr, gan lusgo gyda hwy gyd-deithwyr Paul, y Macedoniaid Gaius ac Aristarchus. ³⁰Yr oedd Paul yn dymuno cael mynd gerbron y dinasyddion, ond ni adawai'r disgyblion iddo; ³¹a hefyd anfonodd rhai o uchel-swyddogion Asia, a oedd yn gyfeillgar ag ef, neges ato i erfyn arno i beidio â mentro i'r theatr. ³²Yn y cyfamser, yr oedd rhai yn gweiddi un peth ac eraill beth arall, oherwydd yr oedd y cyfarfod mewn cynnwrf, ac ni wyddai'r rhan fwyaf i beth yr oeddent wedi dod ynghyd. ³³Ond tybiodd rhai o'r dyrfa mai Alexander oedd yr achos, gan i'r Iddewon ei wthio ef i'r blaen. Gwnaeth yntau arwydd â'i law, gan ddymuno ei amddiffyn ei hun

gerbron y dinasyddion. ³⁴Ond pan ddeallwyd mai Iddew ydoedd, cododd un llef oddi wrthynt oll, a buont yn gweiddi am tua dwy awr, "Mawr yw Artemis yr Effesiaid." ³⁵Ond tawelodd cleric y ddinas y dyrfa, a dweud, "Bobl Effesus, pwy sydd heb wybod fod dinas yr Effesiaid yn geidwad teml Artemis fawr, a'r maen a syrthiodd o'r nef?" ³⁶Felly, gan na all neb wadu hyn, rhaid i chwithau fod yn dawel a pheidio â gwneud dim yn fyrbwyll. ³⁷Yr ydych wedi dod â'r dynion hyn gerbron, er nad ydynt yn ysbeilwyr temlau nac yn cablu ein duwies ni. ³⁸Gan hynny, os oes gan Demetrius a'i gyd-grefftwyr achos yn erbyn rhywun, y mae'r llysoedd barn yn cael eu cynnal ac y mae rhaglafiaid yno; gadewch i'r ddwy ochr gyhuddo ei gilydd yn ffurfiol.

Myfyrdod

'Roedd neges yr efengyl yn cyffroi pobl. Yn Effesus, 'roedd llawer o gyflogaeth yn cael ei gynhyrchu trwy addoli Artemis. 'Roedd y deml fawreddog yno, a gwnâi y gofaint arian lawer o arian o'r cwlt. Fel y deuai mwy o bobl yn ddilynwyr Iesu, nid oeddynt yn addoli Artemis ddim mwy, ac yr oedd hyn yn bygwth llawer o bobl. 'Roedd yna gynnwrf a dryswch. Fe geisiodd y swyddogion yn Effesus dawelu'r storm trwy atgoffa'r bobl fod Artemis yn wych, ac y dylent ymddwyn yn dawel ac nid yn rhesymol, a bod y llysoedd yn agored os oeddynt eisiau cwyno yn erbyn Paul a'r Cristnogion eraill. Mae senario o'r fath ymhell i ffwrdd o'n sefyllfa gyfredol. Chaiff y ffydd Gristnogol yng Nghymru ddim mo'i gwrthwynebu, ond yn hytrach caiff ei hanwybyddu oherwydd tydi hi ddim yn bygwth neb a tydan ni ddim wedi bod yn dda iawn yn gyffredinol am fynegi ein neges mewn geiriau.

Cwestiynau

1. Ym mha ffordd yr ydych yn meddwl y byddai'r ffydd Gristnogol yn achosi bygythiad?
2. Ydych chi yn brwydro efo'r ffordd y mae pobl yn ymateb i'ch ffydd?
3. Fuasech chi yn parhau i fynd i'r eglwys yn gyhoeddus pe buasai yn cael ei wrthwynebu?

'Dwyt ti'm yn ffitio'r mowld, y ddelwedd ohonot ti.

Dim yn farchog ar gadfarch mawr gwyn, neu yn berson grymus o ddewrder

Cyfoeth

ni heidiodd atat, na chymorth holl arweinwyr crefyddol
Treuliaist dy amser gyda dieithriaid
Yn wir, lle'th gyfarfyddaist
ti.
Gwahoddaist ti fi i mewn. Fe ddrylltiast ti y mowld.

Dydd Iau 25 Mai

Actau 22:30; 23:6 -11

³⁰Trannoeth, gan fod y capten am wybod yn sicr beth oedd cyhuddiad yr Iddewon, fe ollyngodd Paul yn rhydd, a gorchymyn i'r prif offeiriaid a'r holl Sanhedrin ymgynnull. ^{Yna daeth ag ef i lawr, a'i osod ger eu bron.}

⁶Sylweddolodd Paul fod y naill ran yn Sadwceaid, a'r llall yn Phariseaid, a dechreuodd lefaru'n uchel yn y Sanhedrin: "Frodyr, Pharisead wyf fi, a mab i Pharisead. Ynghylch gobaith am atgyfodiad y meirw yr wyf ar fy mhrawf." ⁷Wedi iddo ddweud hyn, aeth yn ddadl rhwng y Phariseaid a'r Sadwceaid, a rhannwyd y cynulliad. ⁸Oherwydd y mae'r Sadwceaid yn dweud nad oes nac atgyfodiad nac angel nac ysbryd, ond y mae'r Phariseaid yn eu cydnabod i gyd. ⁹Bu gweiddi mawr, a chododd rhai o'r ysgrifenyddion oedd yn perthyn i blaid y Phariseaid, a dadlau'n daer, gan ddweud, "Nid ydym yn cael dim drwg yn y dyn hwn; a beth os llefarodd ysbryd wrtho, neu angel?" ¹⁰Ac wrth i'r ddadl boethi, daeth ofn ar y capten rhag i Paul gael ei dynnu'n ddarnau ganddynt, a gorchymynnodd i'r milwyr ddod i lawr i'w gipio ef o'u plith hwy, a mynd ag ef i'r pencadlys. ¹¹Y noson honno, safodd yr Arglwydd yn ei ymyl a dweud, "Cod dy galon! Oherwydd fel y tystiolaethaist amdanaf fi yn Jerwsalem, felly y mae'n rhaid iti dystiolaethu yn Rhufain hefyd."

Myfyrdod

Mae Paul gerbron y Sanhedrin. Dyma'r cyngor y bu Iesu ar brawf cynt. 'Roedd yn gymysgiad o'r Phariseaid a'r Saduceaid. Pharisead oedd Paul, ac fe ddywed wrth y llys ei fod ar brawf oherwydd ei fod yn credu yn yr atgyfodiad. Mae hyn achosi cythrwfwl rhwng y Phariseaid sydd yn credu yn yr atgyfodiad (nid Iesu) a'r Saduceaid oedd ddim yn credu. 'Roedd y ddadl ddiwynyddol mor ffyrnig, fel y bu ymyrryd gan y grym Rhufeinig. Mae Paul yn derbyn sicrwydd (os mai dyna'r gair cywir) gan Iesu y dylai dystiolaethu yn Rhufain yn ogystal ac yn Jerwsalem. Mae'r gair tystio yn Groeg (iaith y

Testament Newydd) yr un peth a'r gair tystio. Eto, i mi, mae'r cwestiwn yn codi o ba mor barod ydw i i dystiolaethu i'm ffydd? Pa mor barod os câi fod mor eofn â gofyn, ydych chi?

Cwestiynau

1. Ydych chi erioed wedi clywed dadl ddiwynyddol danbaid? Ydio yn rhywbeth y buasech yn ei fwynhau?
2. Beth ydych yn feddwl o Paul yn manteisio ar y cyfle i dynnu sylw at y rhaniad yn y cyngor?
3. Pa mor hawdd ydio i chi i dystiolaethu?

Helpa fi-i fod yn ffyddlon
Ffyddlon i'th alwad
di
I alwad dy lais di
Tawela nghalon i wrando
Helpa fi i dystio i'th wir di
Gad im weld eraill yn newid
a'r newid 'ddechrau gyda mi.

Dydd Gwener 26 Mai

Actau 25:13-21

¹³Ymhen rhai dyddiau daeth y Brenin Agripa a Bernice i lawr i Gesarea i groesawu Ffestus. ¹⁴A chan eu bod yn treulio dyddiau lawer yno, cyflwynodd Ffestus achos Paul i sylw'r brenin. "Y mae yma ddyd," meddai, "wedi ei adael gan Ffelix yn garcharor, ¹⁵a phan oeddwn yn Jerwsalem gosododd y prif offeiriaid a henuriaid yr Iddewon ei achos ef ger fy mron, a gofyn am ei gondemnio. ¹⁶Atebais hwy nad oedd yn arfer gan Rufeinwyr drosglwyddo unrhyw un fel ffafr cyn bod y cyhuddedig yn dod wyneb yn wyneb â'i gyhuddwyr, ac yn cael cyfle i'w amddiffyn ei hun yn erbyn y cyhuddiad. ¹⁷Felly, pan ddaethant ynghyd yma, heb oedi dim cymerais fy lle drannoeth yn y llys, a gorchymyn dod â'r dyn gerbron. ¹⁸Pan gododd ei gyhuddwyr i'w erlyn, nid oeddent yn ei gyhuddo o'r un o'r troseddau a ddisgwyliwn i. ¹⁹Ond rhyw ddadleuon oedd ganddynt ag ef ynghylch eu crefydd eu hunain, ac ynghylch rhyw lesu oedd wedi marw, ond y mynnai Paul ei fod yn fyw. ²⁰A chan fy mod mewn penbleth ynglŷn â'r ddadl ar y pethau hyn, gofynnais iddo a oedd yn dymuno mynd i Jerwsalem, a chael ei farnu amdanynt yno. ²¹Ond gan i Paul apelio am gael ei gadw dan

warchodaeth, i gael dyfarniad gan yr Ymerawdwr, gorchmynnais ei gadw felly nes imi ei anfon at Gesar.”

Myfyrdod

Dywedais yn gynharach fod Paul yn berson reit bigog. Dwi'n siwr fy mod yn iawn. 'Roedd er hynny y cymysgiad iawn o berson i fod yn apostol gafodd ei gomisiynu i siarad â'r Cenhedloedd yn ogystal â'r Iddewon, O ganlyniad, byddai wedi bod yn gyfarwydd ag ymdrin â diwylliannau gwahanol, ac efallai ei fod yn gyfarwydd â siarad ac anadlu llawer o ieithoedd. Yn y darn hwn mae dau ffigwr o awdurdod yn trafod achos Paul. Tydyn nhw ddim yn Gristnogion a tydyn nhw ddim yn deall y gwahaniaeth rhwng Cristnogaeth ac Iddewiaeth. 'Roedd addysgu Paul wedi cynhyrfu llawer o bobl ond yr oedd wedi ei ganoli yn gyfangwbl ar Iesu. 'Roedd Paul yn ddinesydd Rhufeinig hefyd ac wedi apelio ar yr Ymerawdwr fel ag yr oedd ganddo'r hawl i wneud. 'Roedd yn mynd i dystiolaethu ar y llwyfan mwyaf oedd gan y Rhufeiniad, llys Caesar.

Cwestiynau

1. Pa fath o bobl neu grwpiau ydych chi yn teimlo fwyaf cyfforddus â nhw pan yn siarad am Iesu?
2. Petaech chi yn Paul, fydddech chi wedi apelio ar yr Ymerawdwr?
3. 'Rydych fwy na thebyg wedi bod yn gweddïo dros bump o bobl dros y dyddiau diwethaf, wnewch chi eu gwahodd i addoli efo chi Ddydd Sul?

Iesu neu'r Ymerawdwr
Y dewis amlwg braidd
Byd Cesar – 'roedd ei fyd yn llawn
Dim brenin, arglwydd, neb
'Roedd dewis rhwng y
gwas
A'r un deyrnasa fry
Rhwng un a orchmynodd ufuddod llwyr
Ac un ofynnodd i bobl ei ddilyn
Iesu neu'r Ymerawdwr
Y dewis amlwg braidd
A nawr ymddengys croesau
Brenhinoedd gaëd y siapiau.

Dydd Sadwrn 27 Mai

Actau 28: 16-20, 30,31

¹⁶Pan aethom i mewn i Rufain fe ganiatawyd i Paul letya ar ei ben ei hun, gyda'r milwr oedd yn ei warchod.¹⁷Ymhen tridiau, galwodd Paul ynghyd yr arweinwyr ymysg yr Iddewon. Wedi iddynt ddod at ei gilydd, dywedodd wrthynt, "Er nad wyf fi, frodyr, wedi gwneud dim yn erbyn fy mhobl na defodau'r hynafiaid, cefais fy nhraddodi yn garcharor o Jerwsalem i ddwylo'r Rhufeiniaid. ¹⁸Yr oeddent hwy, wedi iddynt fy holi, yn dymuno fy ngollwng yn rhydd, am nad oedd dim rheswm dros fy rhoi i farwolaeth. ¹⁹Ond oherwydd gwrthwynebiad yr Iddewon, cefais fy ngorfodi i apelio at Gesar; nid bod gennyf unrhyw gyhuddiad yn erbyn fy nghenedl. ²⁰Dyna'r rheswm, ynteu, fy mod wedi gofyn am eich gweld a chael ymddiddan â chwi; oherwydd o achos gobaith Israel y mae gennyf y gadwyn hon amdanaf."

³⁰Arhosodd Paul ddwy flynedd gyfan yno ar ei gost ei hun, a byddai'n derbyn pawb a ddôi i mewn ato, ³¹gan gyhoeddi teyrnas Dduw a dysgu am yr Arglwydd Iesu Grist yn gwbl agored, heb neb yn ei wahardd.

Myfyrdod

'Roedd Paul yn Rhufain o'r diwedd. Mewn amser, byddai yn ymddangos o flaen Cesar, a'i roi i farwolaeth am ei ffydd. Manteisiodd Paul ar y sefyllfa i siarad unwaith eto â'r rhai yr oedd yn eu caru fwyaf, y bobl Iddewig.'Roedd eisiau eu sicrhau nad oedd wedi bradychu ei ffydd, a bod ei gred yn Iesu fel y Meseia yn gyson gyda'r oll oedd wedi mynd ymlaen cynt. Mewn amser pryd y gellid maddau i Paul am beidio â pharhau i weinidogaethu, mae'n parhau i fynd gan ddatgan fod Duw yn teyrnasu yn oruchaf ac yn addysgu am Iesu, oedd i'r Apostol yn ganolbwynt popeth.

Cwestiynau

1. Beth ydych yn ei feddwl wnaeth Paul ei addysgu am Iesu pan oedd yn aros i ymddangos o flaen Cesar?
2. Ydych barn chi o Paul wedi newid o gwbl fel yr ydych wedi darllen y rhannau yma o'r Actau dros y dyddiau diwethaf?
3. Beth ydych chi yn ei ddeall wrth 'teyrnas Dduw'?

Gostyngedig a Bregus
Doeth a
chryf
Athro a Bugail
Chwerthin a Chrio
G'laru a Dawnsio
Dowch i mi eich cyflwyno i fy Iesu
Storiwr a Chwydryn
Mab, a brawd a ffrind
Gweithiwr gwyrthiau a ffrind i'r di-gyfaill
Cythruddwyd gan ragrith crefyddol
Addfwyn a llym
Geilw fy Iesu fi'n ffrind.

Dydd Sul 28 Mai

Actau 2:1-11

¹Ar ddydd cyflawni cyfnod y Pentecost yr oeddent oll ynghyd yn yr un lle, ²ac yn sydyn fe ddaeth o'r nef sŵn fel gwynt grymus yn rhuthro, ac fe lanwodd yr holl dŷ lle'r oeddent yn eistedd. ³Ymddangosodd iddynt dafodau fel o dân yn ymrannu ac yn eistedd un ar bob un ohonynt; ⁴a llanwyd hwy oll â'r Ysbryd Glân, a dechreusant lefaru â thafodau dieithr, fel yr oedd yr Ysbryd yn rhoi lleferydd iddynt.

⁵Yr oedd yn preswyllo yn Jerwsalem Iddewon, pobl dduwiol o bob cenedl dan y nef; ⁶ac wrth glywed y sŵn hwn fe ymgasglodd tyfa ohonynt, ac yr oeddent wedi drysu'n lân am fod pob un ohonynt yn eu clywed hwy yn siarad yn ei iaith ei hun. ⁷Yr oeddent yn synnu ac yn rhyfeddu, ac yn dweud, "Onid Galileaid yw'r rhain oll sy'n llefaru? ⁸A sut yr ydym ni yn eu clywed bob un ohonom yn ei iaith ei hun, iaith ei fam? ⁹Parthiaid a Mediaid ac Elamitiaid, a thrigolion Mesopotamia, Jwdea a Capadocia, Pontus ac Asia, ¹⁰Phrygia a Pamffylia, yr Aifft a pharthau Libya tua Cyrene, a'r ymwelwyr o Rufain, yn Iddewon a phroselytiaid, ¹¹Cretiaid ac Arabiaid, yr ydym yn eu clywed hwy yn llefaru yn ein hieithoedd ni am fawrion weithredoedd Duw."

Myfyrdod

Fel bachgen yn tyfu i fynu yn Sheffield, Pentecost neu'r Sulgwyn oedd yr unig amser pan âi'r eglwys allan. Fe âi pob dim allan:

canhwyllau, mantelli, llyfrau emynau ayyb. Dyma oedd ein dathliad ni o benblwydd yr eglwys. Dydd y Pentecost oedd y dydd y llenwyd y disgyblion ag Ysbryd Duw. 'Roeddynt yn llawn o'r Ysbryd fel eu bod yn gallu mynd â neges Iesu allan i'r byd.

Cwestiynau

1. Ym mha ffordd yr ydych chi yn mynd â Iesu i'ch byd?
2. Ym mha ffordd y gall ein heglwysi fynd â Iesu i'r byd?
3. Fedrwch chi feddwl am dri pheth yr ydych wedi eu dysgu dros y deng niwrnod diwethaf?

Tafodau tân, suo gwynt
leithoedd gwahanol yn peintio newydd fyd
Iddew a Groegwr, Cyprian a Mesopotamian
Gasglwyd mewn un lle.
Rhoddwyd gwahoddiad, ymateb sydd ei angen
Fyddwch chi at wasanaeth,
Gwasanaeth Brenin y Brenhinoedd?

Ysgrifennwyd y myfyrdodau, y cwestiynau a'r cerddi gan Kevin Ellis
Mae'r cyfieithiad i'r Gymraeg gan Catherine Mary Roberts



***Yr Eglwys Yng Nghymru yn Mro Madryn
The Church in Wales in Bro Madryn***